# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**11 Hydref 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, S P Jones, R G Parry, E L Shui-Nicholson, C Thomas, G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng H N Evans, D Fowlie, J Earnshaw, G Parry | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts (mater sensitive), Cyng P Roberts (mater sensitive) |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13.09.23 fel cofnodion cywir. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Dywedodd y Clerc bod y contractwr yn gobeithio gosod yr offer newydd ddiwedd y mis hwn. |
| **4.2** | **Cysgodfan Bws Engedi** - llenwi'r tyllau ac arwyddion dim parcio – mewn llaw |
| **4.3** | **Wal mynwent Llanbeulan** – mewn llaw |
| **4.4** | **Mandad y banc** – Mae mandad newydd wedi'i lofnodi gan aelodau enwebedig. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r banc. |
| **4.5** | **Maes Chwarae** - Oherwydd salwch bu'n rhaid i'r Clerc ganslo'r cyfarfod a drefnwyd gyda'r ysgol i drafod CCTV. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod pellach. |
| **4.6** | **Mynwent Llanbeulan (gwair)** - Mae'r gwair wedi ei symud a dywedodd y Cadeirydd fod y fynwent bellach yn daclus |
| **4.7** | **Mynwent Salem** - Mae'r Clerc wedi gofyn i'r contractwr fynd ymlaen gyda'r gwrychoedd. |
| **4.8** | **Teirw Bryngwran** – mewn llaw |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.11.23 |

| | |
|---|---|
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd y bydd y cyngor wedi bodoli ers 130 o flynyddoedd yn 2024 a gofynnodd i'r aelodau feddwl sut i ddathlu.<br>Soniodd hefyd am grant Cynghrair Crigyll o £1300 ar gyfer pob ardal cyngor cymuned. Cynigiodd y Cyng E Law Shui Nicholson argraffu ffurflen gais I'r Ysgol Feithrin. Mae angen i geisiadau wedi'u cwblhau fod gyda Chlerc y Cyngor erbyn 31.10.23.<br>Bydd bws Medrwn Mon yn yr Iorwerth ar 17.10.23 i drafod anghenion trafnidiaeth yr ardal. |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | FPL/2023/268 Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn 20 Bro Isaf, Bryngwran – dim sylwadau |
| | **Gwastraff** |
| **6.2** | Yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned am fin yn Lôn Ty Hen, roedd ymateb gan y Cyngor Sir yn nodi nad ydynt yn gallu darparu gwasanaeth oherwydd nad yw eu contractwr yn gallu cymryd rhagor o waith.<br>Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau gyda chontractwyr eraill. |
| | **Pwyllgor Safonnau** |
| **6.3** | Mae copi o gylchlythyr y Pwyllgor Safonau wedi'i anfon at bob aelod |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Heddlu Gogledd Cymru - Mae'r Clerc bellach wedi derbyn cysylltiadau ar gyfer y tîm plismona lleol |
| **7.2** | Sul y Cofio - Mae'r Clerc wedi derbyn y torchau a bydd cynrychiolydd o'r RAF yn mynychu. Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi awdurdod i ffyrdd gael eu cau am gyfnod byr yn ystod gwasanaethau ar Sul y Cofio. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr Heddlu yn mynychu i arwain traffig. Cytunwyd felly y gofynnir i 2 wirfoddolwr atal y traffig am rai munudau. |
| **7.3** | Mr Mike Moss - Mae cais wedi dod i law gan Mr Moss ynglŷn â grant Cynghrair Crigyll sydd ar gael. Mae'n awgrymu y dylid gwneud cais i osod giât drwy'r ffens werdd ar y cae pêl-droed. Yn anffodus, nid oes digon o amser cyn y dyddiad cau i gael caniatâd yr ysgol a'r Adran Addysg |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.11.23 |

| | |
|---|---|
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Bin Lon Ty Hen – gweler 6.2 |
| **8.2** | SP Energy Networks - Dywedodd y Cadeirydd y bydd SP Energy Networks yn gosod ceblau newydd yn yr ardal i ddod â nhw i fyny i'r safon o Ionawr 2024. |
| **8.3** | Fleece - Dywedodd y Cadeirydd fod siacedi fleece gyda graffig Cyngor Cymuned Bryngwran ar gael i aelodau. Dylai unrhyw un sy'n dymuno archebu fleece gysylltu â'r Clerc. |
| **8.4** | Tyn Lon, Engedi - Mae'r Cadeirydd wedi derbyn cwynion am oryrru ar yr A4080 ger y troad am Bencarnisiog. Mae'n ymddangos bod hyn y tu allan i ardal y cyngor cymuned. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cynghorydd Sir D Fowlie |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | Archwiliad Cymru 2017-2018 £312.60 |
| **9.2** | Costau y Clerc£199.40 |
| **9.3** | G Owen torchau £60.00 |
| **9.4** | Adolygiad o'r gyllideb - Mae'r Clerc wedi paratoi adolygiad ariannol cyfnodol. Mae gan y Cyngor ddigon o adnoddau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. |
| **9.5** | Adolygu cyflog y Clerc (Ebrill 2024) - Cytunwyd i godi cyflog y Clerc 6.3% o Ebrill 2024 yn unol â'r cynnydd cenedlaethol cyfartalog mewn cyflogau yn ystod Medi 2023. Cyng C Thomas yn cynnig a'r Cyng P Roberts yn eilio. |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 08.11.23 |